OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1244 (Cy.152)

# IECHYD MEDDWL, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012

*Gwnaed - - - - 8 Mai 2012*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45, 46 a 52(2) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(**1**).

Mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 52(5)(b) o'r Mesur, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) i'r graddau y maent yn ymwneud â darpariaeth ranbarthol ar gyfer Rhan 1 o'r Mesur, yn union ar ôl i adran 45 (Rhan 1: y pŵer i sicrhau darpariaeth ranbarthol) o'r Mesur ddod i rym ar 8 Mai 2012; a

(b) at bob diben arall, yn union ar ôl i adran 46 (Rhan 3: y pŵer i sicrhau darpariaeth ranbarthol) o'r Mesur ddod i rym ar 6 Mehefin 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

**Darpariaeth ranbarthol ar gyfer Rhan 1 o'r Mesur**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), er mwyn sicrhau darpariaeth ranbarthol yn unol â'r hyn a ddarperir yn adran 45 o'r Mesur mae Rhan 1 (gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol

(**1**) 2010 mccc 7.

lleol) o'r Mesur wedi ei datgymhwyso o ran ardaloedd yr awdurdodau lleol a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae Rhan 1 ac i'r graddau y mae angen hynny mae Rhannau 5 (cyffredinol) a 6 (amrywiol ac atodol) o'r Mesur wedi eu cymhwyso o ran ardaloedd cyfun yr awdurdodau lleol a nodir ac a grwpir gyda'i gilydd fel rhanbarthau yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(3) At ddibenion Rhan 1 o'r Mesur mae'r partneriaid iechyd meddwl lleol i bob rhanbarth wedi eu dyrannu yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(4) Nid yw adrannau 6 (dyletswyddau i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol: atgyfeiriadau ar gyfer cleifion cofrestredig mewn gofal sylfaenol), 7 (dyletswyddau i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol: atgyfeiriadau gofal sylfaenol eraill) ac 8 (dyletswyddau i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol: atgyfeiriadau gofal iechyd meddwl eilaidd) wedi eu datgymhwyso at ddibenion paragraff (1) nac wedi eu cymhwyso at ddibenion paragraff (2) ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â'r cynllun y cyfeirir ato yn adran 2(4) neu 2(5) (cynlluniau ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol) i'r rhanbarth yn adrannau 7(6) ac 8(2) a (5).

## Darpariaeth ranbarthol ar gyfer Rhan 3 o'r Mesur

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), er mwyn sicrhau darpariaeth ranbarthol yn unol â'r hyn a ddarperir yn adran 46 o'r Mesur mae Rhan 3 (asesiadau ar ddefnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o'r Mesur wedi ei datgymhwyso o ran ardaloedd yr awdurdodau lleol a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae Rhan 3 ac i'r graddau y mae angen hynny mae Rhannau 5 (cyffredinol) a 6 (amrywiol ac atodol) o'r Mesur wedi eu cymhwyso o ran ardaloedd cyfun yr awdurdodau lleol a nodir ac a grwpir gyda'i gilydd fel rhanbarthau yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(3) At ddibenion Rhan 3 o'r Mesur mae'r partneriaid iechyd meddwl lleol i bob rhanbarth wedi eu dyrannu yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(4) Nid yw adrannau 19 (trefniadau ar gyfer asesu defnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd), 22 (hawl i asesiad) a 29 (penderfynu man preswylio arferol), wedi eu datgymhwyso at ddibenion paragraff (1) nac wedi eu cymhwyso at ddibenion paragraff (2) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol—

(i) hawl oedolyn i gael asesiad; a

(ii) penderfynu man preswylio arferol yr oedolyn hwnnw er mwyn sefydlu'r hawl i gael asesiad ar y sail bod man preswylio arferol yr oedolyn hwnnw mewn ardal awdurdod lleol.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Mai 2012

## ATODLEN 1

Rheoliadau 3(1) a 4(1)

### Ardaloedd awdurdodau lleol sydd wedi eu datgymhwyso er mwyn sicrhau darpariaeth ranbarthol ar gyfer Rhannau 1 a 3 o'r Mesur

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Caerdydd

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir Mynwy

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Sir Ynys Môn

Dinas a Sir Abertawe

## ATODLEN 2

Rheoliadau 3(2) a (3) a 4(2) a (3)

### Y ddarpariaeth ranbarthol a'r partneriaid iechyd meddwl lleol sydd wedi eu dyrannu ar gyfer Rhannau 1 a 3 o'r Mesur

| *Colofn 1*<br>**Ardaloedd yr awdurdodau lleol (neu'r rhannau ohonynt) a gymhwysir fel rhanbarthau** | *Colofn 2*<br>**Y partneriaid iechyd meddwl lleol** |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngor Sir Ddinbych | Cyngor Gwynedd |
| Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngor Sir y Fflint |

| *Colofn 1* **Ardaloedd yr awdurdodau lleol (neu'r rhannau ohonynt) a gymhwysir fel rhanbarthau** | *Colofn 2* **Y partneriaid iechyd meddwl lleol** |
|---|---|
| | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda |
| Cyngor Sir Ceredigion | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Cyngor Sir Penfro | Cyngor Sir Ceredigion |
| | Cyngor Sir Penfro |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Dinas a Sir Abertawe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| | Dinas a Sir Abertawe |
| Cyngor Bro Morgannwg | Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Cyngor Caerdydd | Cyngor Bro Morgannwg |
| | Cyngor Caerdydd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyngor Dinas Casnewydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen |
| Cyngor Sir Mynwy | Cyngor Dinas Casnewydd |
| | Cyngor Sir Mynwy |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer darpariaeth ranbarthol at ddibenion Rhannau 1 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ("y Mesur").

**2.** Mae Rhannau 1 a 3 o'r Mesur yn cael eu datgymhwyso o ran ardaloedd yr holl awdurdodau lleol sydd wedi eu rhestru yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn (rheoliadau 3(1) a 4(1)).

**3.** Wedyn mae Rhannau 1 a 3 o'r Mesur ac i'r graddau y mae angen hynny, mae Rhannau 5 a 6 o'r Mesur yn cael eu cymhwyso o ran ardaloedd cyfun yr awdurdodau lleol sydd wedi eu grwpio gyda'i gilydd yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn. Yr enw ar ardaloedd cyfun y grwpiau hyn o awdurdodau lleol yw "rhanbarthau" (rheoliadau 3(2) a 4(2)).

**4.** Mae'r partneriaid iechyd meddwl lleol i bob rhanbarth wedi eu dyrannu yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn (rheoliadau 3(3) a 4(3)).

**5.** Mae eithriad yn cael ei wneud i'r modd y mae Rhan 1 o'r Mesur yn cael ei datgymhwyso a'i chymhwyso at ddibenion adrannau 6, 7 ac 8. Mae'r eithriad hwn yn golygu nad yw darpariaeth ranbarthol yn gymwys at ddibenion adrannau 6, 7 ac 8, ac eithrio i'r graddau y mae'r adrannau hynny'n ymwneud â chynllun ar gyfer rhanbarth (fel y cyfeirir ato yn adran 2(4) a (5) o'r Mesur) yn adrannau 7(6) ac 8(2) a (5) (rheoliad 3(4)).

**6.** Mae eithriad yn cael ei wneud i'r modd y mae Rhan 3 o'r Mesur yn cael ei datgymhwyso a'i chymhwyso at ddibenion adrannau 19, 22 a 29. Mae'r eithriad hwn yn golygu nad yw darpariaeth ranbarthol yn gymwys at ddibenion adrannau 19, 22 a 29 i'r graddau y mae'r adrannau hynny'n ymwneud â hawl oedolyn i gael asesiad, neu â phenderfynu man preswylio arferol oedolyn yn ôl ardaloedd yr awdurdodau lleol er mwyn sefydlu hawl yr oedolyn hwnnw i gael asesiad (rheoliad 4(4)).

**7.** Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ynglŷn â chostau a buddion tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Tîm Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.